Settled

Cyngor i ddinasyddion yr UE ac Wcreiniaid yn y DU

Dinasyddion yr UE

Mae Settled yn elusen a sefydlwyd yn 2019 i helpu dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU yr effeithiwyd ar eu hawliau gan Brexit. Gweithiodd Settled yn galed i sicrhau bod cymaint â phosibl yn sicrhau eu statws mewnfudo cyn y dyddiad cau ym mis Mehefin 2021, fel y gallai eu bywydau yma barhau. Rydym bellach yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE, gan gynnwys pobl sy'n hwyr yn gwneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), neu y mae eu cais wedi'i wrthod. Rydym hefyd yn helpu pan fydd pobl yn cael trafferth profi eu statws mewnfudo neu gael mynediad at hawliau a gwasanaethau. Gall y rhain gynnwys yr hawl i ddod ag aelodau o'r teulu i ymuno â nhw yn y DU, ac i gael mynediad at fudd-daliadau lles, gofal iechyd, ac ati.

Wcráin

Ers mis Mawrth 2022, mae Settled hefyd bellach yn darparu cyngor ar Gynllun Teuluoedd o Wcráin a Chynllun Cartrefi i Wcráin. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer Wcreiniaid yn y DU neu dramor, a gwesteiwyr. Rydym yn ymdrin â hawliau mewnfudo a hawliau ehangach o ran tai, addysg, ac ati. (Nid ydym yn cynorthwyo i 'baru' yn uniongyrchol).

Gwybodaeth a chefnogaeth

Mae Settled wedi'i gofrestru i roi cyngor mewnfudo ar Lefel 3 OISC. Mae gennym dîm bach o staff a rhwydwaith o 100+ o wirfoddolwyr wedi'u lleoli ledled y DU. Rydym yn siarad dros 20 o ieithoedd Ewropeaidd, gan gynnwys Romanes ar gyfer ein gwasanaeth Roma ymroddedig, a Wcreineg. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar ein gwefan amlieithog: **www.settled.org.uk**. Darperir cyngor i ddinasyddion yr UE ac Wcráin yn rhad ac am ddim trwy e-bost a ffôn (Llun-Gwener 9-5). Rydym hefyd yn rheoli grwpiau Facebook rhyngweithiol mewn amrywiaeth o ieithoedd.

Cysylltwch â ni

- **Llinell gyngor amlieithog EUSS*:** 0330 223 5336
- **Gwasanaeth cynghori EUSS:** advice@settled.org.uk
- **Gwasanaeth cynghori Roma EUSS:** roma.advice@settled.org.uk
- **Ceisiadau EUSS yng Nghymru:** ApplyEUSSWales@settled.org.uk
- **Gwasanaeth cynghori Wcráin:** ukraineadvice@settled.org.uk
- **Grwpiau Facebook amlieithog:** via WeAreSettled
- **Eisiau gwirfoddoli?** E-bostiwch: volunteer.manager@settled.org.uk

Settled
settled.org.uk

* gydag estyniadau Bwlgareg, Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Pwyleg, Romanes, Rwmaneg a Sbaeneg.
Os ydych chi'n ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 330 223 5336

Rhif elusen gofrestredig: 1184580 (Cymru a Lloegr) SC052326 (Yr Alban)
OISC organisation N201900057

OISC